**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

28 Mehefin 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym am 04:00 a.m. ar 30 Mehefin 2021, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y diwygiadau a ganlyn:

- Ychwanegu **Eritrea, Gweriniaeth Dominica, Haiti, Mongolia, Tunisia ac Uganda** at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau

- Ychwanegu **Anguilla, Antigua a Barbuda, Barbados, Bermuda, Dominica, Grenada, Madeira, Malta, Montserrat, Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Ynysoedd Baleares, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Pitcairn, Ynysoedd Prydeinig y Wyryf ac Ynysoedd Turks a Caicos** at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 er mwyn diwygio testun rhagnodedig y cyhoeddiad gwybodaeth iechyd y cyhoedd y mae'n ofynnol i weithredwyr ei ddarparu i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar wasanaethau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

perthnasol. Diben y diwygiad yw cyfeirio’n benodol at y gofynion perthnasol o ran profion ar ôl cyrraedd.

Trwy beidio â chydymffurfio â’r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â’r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, David Rees AS, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services